



# Cymdeithas Tai Sir Fynwy

## Cynllun Corfforaethol 2024

Monmouthshire Housing
Tai Sir Fynwy

# Cynnwys





3. **Cyflwyniad**
4. Ychydig **Amdanom Ni**
5. Ein **Pobl**
6. Ein **Lleoedd**
7. Ein **Ffyniant**
8. Ein **Planed**
9. **Cysylltu** â Ni

# Cyflwyniad



Tony Deakin – Cadeirydd y Grŵp



John Keegan – Prif Weithredwr

**Wrth i ni ddechrau ar ein taith dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd Cynllun Corfforaethol cadarn sy'n fap trywydd i ni ar gyfer ein llwyddiant. Mae'n cyflwyno ein cyfeiriad strategol fel busnes, yn amlinellu ein nodau ac yn arwain ein gweithredoedd, fel ein bod ni'n parhau i dyfu ac i ddiogelu yr hyn sydd o'n cwmpas wrth ddarparu gwasanaethau a chymorth neilltuol ar gyfer ein tenantiaid a'n cymunedau.**

Wrth ddatblygu ein Cynllun, rydyn ni wedi ymgysylltu â'n rhanddeiliaid allweddol er mwyn cael dealltwriaeth glir o'u hanghenion a'u dyheadau. Mae hyn wedi bod yn amhrisiadwy wrth i ni lunio ein blaenoriaethau a'n strategaethau.


Mae Grŵp MHA yn llawn cyffro wrth feddwl am y cyfleoedd a'r partneriaethau sydd o'n blaenau. Mae'n hyderus y bydd ein nodau a'n cynlluniau yn sicrhau effeithiau pennaf cadarnhaol ar gyfer y bobl sy'n bwysig i ni.

**Diolch am eich cefnogaeth barhaus, wrth i ni weithio gyda'n gilydd i adeiladu dyfodol gwell.**

# Ychydig **Amdanom Ni**

**Rydyn ni'n rheoli 3,800 o gartrefi..**

**Rydyn ni'n cyflogi 236 aelod o staff.**




Ein gweledigaeth **yw darparu cartrefi cynaliadwy a chreu cymunedau ffyniannus sy'n bodloni disgwyliadau ein rhanddeiliaid. Bob dydd, rydyn ni'n ceisio trawsnewid bywydau, trwy alluogi ein cymunedau i wireddu eu huchelgeisiau. Rydyn ni'n gwneud hynny trwy ddarparu cartrefi, gwasanaethau a chymorth diogel, o ansawdd uchel.**

## Ein Gwerthoedd

AGORED | TEG | CYFLAWNI | HYBLYG

## Mae'r cynllun wedi'i adeiladu ar bedwar piler allweddol:

POBL | LLEOEDD | FFYNIANT | Y BLANED

# Ein **Pobl**



**Trwy hyrwyddo diwylliant o gynhwysiant, talent amrywiol a byw'n iach byddwn yn cefnogi pobl i ffynnu ac i gyflawni eu gwir botensial.**

## Heriau a chyfleoedd allweddol

**Yn wyneb pwysau cynyddol ar raglenni cynnal a chadw a gwasanaethau hanfodol eraill, mae ffocws ein hymrwymiad ar gynnal lefelau boddhad uchel o hyd, er mwyn gwella bywydau a chartrefi pobl yn barhaus.**

Mae cyfathrebu effeithiol yn allweddol, wrth i ni ymdrechu i gyfleu ein hymdrechion mewn ffordd dryloyw, i wella iechyd a'r amgylchedd, ac i ysbrydoli eraill ar yr un pryd i gymryd perchnogaeth o'u llesiant. Mae ein ffocws ar flaenoriaethu gwasanaethau cymorth i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein plith, ac felly rydyn ni'n cefnogi pobl trwy'r hinsawdd economaidd sydd ohoni ac yn meithrin ymdeimlad o gynhwysiant a gofal yn ein cymunedau.

Ar ben hynny, wrth i ni ddathlu'r rhan hudolus hon o Gymru, rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Trwy gyfrannu at dargedau'r Llywodraeth o feithrin 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, rydyn ni'n gwarchod ein treftadaeth ddiwylliannol ac ar yr un pryd yn cyfoethogi gwead ein cymdeithas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Ein ffocws ar gyfer 2024-27

**Cadw boddhad cwsmeriaid yn y chwartel uchaf**


**Sicrhau bod cynhwysiant ac ymgysylltiad yn parhau i fod wrth wraidd yr hyn a wnawn**

**Buddsoddi yn ein cydweithwyr er mwyn iddyn nhw gyflawni eu potensial**

### Mesur Llwyddiant...

- Cadw lefelau boddhad cyffredinol tenantiaid ar 89%
- Cadw trosiant staff ar 10% neu lai.
- Cyflawni o leiaf 85% ar gyfer boddhad staff ar draws pob ffactor ymgysylltu.

# Ein **Lleoedd**



**Rydyn ni wedi ymrwymo i ddarparu cartrefi diogel, fforddiadwy, o ansawdd uchel sydd ag amgylcheddau bywiog, gan gydweithio â phartneriaid i greu cymunedau ffyniannus.**

## Heriau a chyfleoedd allweddol

**Rydyn ni'n angerddol iawn am ein cenhadaeth i wella bywydau a meithrin cymunedau ffyniannus.** Mae sicrhau bod ein tenantiaid yn teimlo'n ddiogel, a hefyd yn ymfalchïo yn eu cartrefi, yn ganolog i'r weledigaeth hon - gweledigaeth sydd i'w gweld ym mhopeth a wnawn. Wrth i ni ffeindio'n ffordd trwy'r galw cynyddol am dai fforddiadwy, rydyn ni'n parhau i ymrwymo i chwilio am bob cyfle i ehangu ein stoc dai, gan sicrhau bod yr hyn rydyn ni'n ei wneud yn cyd-fynd â'n huchelgais. Mae mynd i'r afael â digartrefedd yn flaenoriaeth, ac rydyn ni'n cydweithio'n actif ag awdurdodau lleol ar strategaethau ailgartrefu cyflym, i gynnig atebion cynaliadwy. Ein nod yw bod yn landlord ac yn ddatblygwr y bydd pobl am ei ddewis, ac un sy'n cynnig cartrefi o ansawdd da a gwasanaeth rhagorol. Wedi dweud hynny, rydyn ni'n cydnabod yr heriau sy'n codi gyda chynnal a chadw a chostau cynyddol deunyddiau a llafur, yn enwedig wrth fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC2). Er gwaethaf yr heriau hyn, mae ein hymrwymiad i ddarparu tai diogel, fforddiadwy, o ansawdd uchel i bawb yn dal i fod yn gadarn

## Ffocws ar gyfer 2024 a thu hwnt

- **Cynnal cartrefi ac amgylcheddau o ansawdd uchel**
- **Cynyddu ein stoc dai i 5,000 erbyn 2030**
- **Partneru â sefydliadau i greu buddsoddiad**
- **Gwella llesiant y cymunedau yr ydyn ni'n eu gwasanaethu**

### Mesur Llwyddiant...

- Bod ein Safonau Aur ar gyfer Tai Gwag yn bodloni gofynion SATC2
- Nodi ffrydiau ariannu i gynyddu'r cyflenwad o dai â chymorth
- Cyflawni blwyddyn 3 i gyrraedd y targedau a osodwyd ar gyfer y prosiect iConnect
- Cyflawni'r rhaglen ddatblygu

# Ein **Ffyniant**



**Rydyn ni'n buddsoddi mewn twf, ac oherwydd hynny byddwn yn parhau i fod yn fusnes cryf a chydnerth yn ariannol, ac i hyrwyddo caffaeliad teg a lleol.**

## Heriau a chyfleoedd allweddol

**Yn ein hymdrechion parhaus i sicrhau sefydlogrwydd ariannol a chefnogi ein tenantiaid, mae ein hymrwymiad i gadw ôl-ddyledion rhent ar lefel isel yn parhau.** Ar yr un pryd, rydyn ni'n adolygu ein gwasanaethau yn barhaus ac yn blaenoriaethu gwerth am arian, fel yr amlinellir yn ein Datganiad Gwerth Am Arian sydd ar gael ar ein gwefan. Er mwyn cryfhau ein tîm arwain ymhellach, a sicrhau bod gennym y sgiliau cywir ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau, rydyn ni'n cynnal adolygiad cynhwysfawr o Berfformiad y Bwrdd. Yn ogystal, mae seiberddiogelwch yn dal i fod yn brif flaenoriaeth, ac rydyn ni wrthi'n adolygu ein protocolau yn weithgar er mwyn cryfhau ein diogelwch. Rhagwelwn y bydd y ffocws wrth edrych ymlaen yn adeiladu ar lwyddiant ein Strategaeth Ddigidol, ac yn parhau i fod ar greu effeithlonrwydd a gwella galluoedd digidol. Mae'r mentrau strategol hyn wrth wraidd ein hymrwymiad i reoli'n effeithiol ac mewn ffordd gynaliadwy yn ystod y tair blynedd nesaf a thu hwnt.

## Ffocws ar gyfer 2024-27

**Sicrhau bod MHA yn cyrraedd y safonau llywodraethu uchaf**

**Sicrhau gwerth am arian yn y gwasanaethau y mae MHA yn eu darparu**

**Cofleidio arloesedd a thechnolegau newydd i wella'r ffordd yr ydyn ni'n darparu gwasanaethau**

### Mesur Llwyddiant...

- Dilysu perfformiad, sgiliau a chymwyseddau'r Bwrdd yn allanol i gyflawni uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol
- Sicrhau gwarged gweithredol yn unol â'r Cynllun Ariannol, Strategaeth y Trysorlys a'r Rheolau Aur
- Cadw ôl-ddyledion rhent cyffredinol ar 3%
- Cadw ôl-ddyledion CC ar uchafswm o 6%
- Sicrhau cynnydd o 10% yn y newid sianel eleni trwy strategaeth ddigidol MHA
- Digideiddio systemau analog a chreu gwasanaethau larymau llinell ofal newydd



# Ein **Planed**

**Â ninnau'n stiwardiaid dros y amgylchedd sy'n barod i newid, byddwn yn parhau i adeiladu cartrefi cynaliadwy ac ecogyfeillgar, gan hyrwyddo cydnerthedd ecologol a chyfrannu tuag at dargedau carbon sero cenedlaethol.**

## Heriau a chyfleoedd allweddol

**Fel rhai sydd wedi mabwysiadu'r Safon Adrodd Cynaliadwy, rydyn ni wedi ymrwymo i leihau ein heffaith garbon trwy gynllun gwella uchelgeisiol.** Mae hyn yn cyd-fynd ag ymdrechion i gyflawni Cam 1 y Safon Sero Net erbyn 2027 ac yn cyd-fynd â thargedau Hygyrchedd Cynaliadwy wrth Gaffael (SAP) Llywodraeth Cymru erbyn 2029.

Fel arwydd o'n hymrwymiad i gynaliadwyedd, mae llai na 0.5% o'n gwastraff busnes yn mynd i safleoedd tirlenwi ar hyn o bryd, ac rydyn ni'n ymdrechu'n barhaus i ostwng y ffigwr hwn. Rydyn ni'n defnyddio'n rôl fel stiwardiaid ac yn mynd ati i annog ymddygiad amgylcheddol cadarnhaol yn ein cymunedau, gan feithrin diwylliant o gynaliadwyedd, i sicrhau dyfodol gwyrddach.

## Ffocws ar gyfer 2024-27

- **Lleihau ein hôl troed carbon trwy ein ffyrdd o weithio**
- **Dylanwadu ar ymddygiad amgylcheddol a chynaliadwy cadarnhaol**
- **Adeiladu cymunedau iachach**

### Mesur Llwyddiant...

- Sicrhau asesiadau Tystysgrif Perfformiad Ynni ar gyfer pob eiddo gwag
- Pob cartref newydd a adeiladir yn cael Tystysgrif Perfformiad Ynni â sgôr 'A'
- Nid yw gwastraff busnes sy'n mynd i safleoedd tirlenwi yn fwy na 0.5%
- Estyn hyfforddiant llythrennedd carbon allan i bob aelod perthnasol o staff

# Cysylltu â Ni



0345 677 2277

customerservices@monmouthshirehousing.co.uk

www.monmouthshirehousing.co.uk

Monmouthshire Housing Association
Nant-Y-Pia House, Mamhilad Technology Park
Mamhilad, Monmouthshire, NP4 0JJ

facebook.com/Monmouthshire.Housing

x.com/mon_housing